

Cynlluniau Lle Ceredigion

Cynllun Lle Llandysul

2019



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Cefndir cyffredinol

Cefndir cyffredinol y dref ac uchelgais y Cynllun

Mae tref hanesyddol Llandysul yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn-Normanaid. Mae'n swatio ar ymyl afon Teifi sy'n enwog am ei sewiniaid a'i heogiaid, ac mae'n pontio'r ffin rhwng dau awdurdod lleol, gyda phentref Pont-tyweli wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin a thref Llandysul wedi'i lleoli yng Ngheredigion. Mae tri chyngor cymuned yn gwasanaethu'r ardal o amgylch Llandysul, sef Llanfihangel a Llangeler yn Sir Gaerfyrddin a Llandysul yng Ngheredigion. Mae'n un o gadwyn o drefi marchnad sy'n estyn o'r naill ben i ddyffryn Teifi i'r llall – o Aberteifi yn y De, drwy Gastellnewydd Emlyn, Llandysul, Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan i Dregaron yn y Gogledd lle mae afon Teifi'n tarddu.

Mae Llandysul yn dref farchnad draddodiadol ac mae amaethyddiaeth yn dal i chwarae rôl bwysig yn economi'r ardal. Yn y gorffennol, roedd yr ardal wledig o amgylch y dref yn defnyddio'r afon yn helaeth fel llwybr masnach, ac roedd melinau gwlan yn gyflogwr amlwg iawn yn yr ardal.

Yn hanesyddol, roedd y Pwerdy, sy'n cael ei ddefnyddio fel canolfan gymunedol/gelfyddydol erbyn hyn, yn cynhyrchu trydan o dyrbinau a oedd wedi'u gosod yn afon Teifi, a hynny i gyflenwi ynni i fro Llandysul a Phont-tyweli.

Hyd nes toriadau Beeching, roedd rheilffordd yn gwasanaethu'r ardal, gan helpu i ddod â nwyddau i'r ardal a'u cludo oddi yno. Roedd marchnad da byw wedi'i lleoli daflad carreg o ddiwedd y rheilffordd i wneud y gorau o'r cyfleoedd a oedd yn gysylltiedig â hi. Yn anffodus, mae'r farchnad da byw wedi dod i ben oherwydd newidiadau i arferion amaethyddol ac i wneud lle i ffordd osgoi Llandysul sy'n rhan o gynllun ffordd gyswllt Ceredigion.

Mae gennym boblogaeth o tua dwy fil o breswylwyr ar hyn o bryd. Dros y blynyddoedd, mae'r gwasanaethau a ddarperir yn y dref gan y sector preifat a'r sector cyhoeddus wedi dirywio, ac mae'n werth nodi bod y pedwar banc mawr a fu'n gweithredu ar ein stryd fawr wedi cau erbyn hyn. Unwaith eto, rydym yn sefyll wrth groesffordd ac yn wynebu heriau mawr o ran darpariaeth y stryd fawr. Heb os, bydd rhaid i'n stryd fawr ddarparu gwasanaethau a chynhyrchion nad yw'n hawdd cael gafael arnynt mewn canolfannau siopa ar gyrion trefi.

Mae'r Gymraeg yn dal i ffynnu yn y rhan hon o'r Gorllewin lle siaredir Cymraeg yn bennaf. O safbwynt Ceredigion, mae un o'r wardiau â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg wedi'i leoli yn yr ardal hon.

Un mater a ddaeth i'r amlwg drwy gydol y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Lle oedd bod pobl wedi blino a diflasu ar lenwi'r naill holiadur ar ôl y llall, heb i ddim byd amlwg ddeillio o'r broses honno.

Roedd pobl am weld y broses hon yn esgor ar ddatblygiadau a fyddai'n sicrhau, ymhen deng mlynedd, fod ganddynt gymuned sy'n parhau i fod yn groesawgar ac yn

elwa mwy ar dwristiaeth, stryd fawr lewyrchus a swyddi i gadw pobl ifanc yn yr ardal, a gofal iechyd gwell. Roeddent hefyd am ddiogelu eu mannau gwyrdd agored a sicrhau bod yr holl weithgareddau chwaraeon yn parhau, yn ogystal â datblygu'r llwybrau cerdded a beicio ymhellach i hybu twristiaeth sy'n gysylltiedig â cherdded a gweithgareddau.

Strategaeth ar gyfer y dyfodol

O blith y bobl a gymerodd ran yn y diwrnod sgwrsio am yr holiadur, roedd llawer ohonynt yn gwirfoddoli gydag o leiaf un o'r deg ar hugain a mwy o glybiau, grwpiau, sefydliadau a chymdeithasau cymunedol a geir yn y dref neu'n cymryd rhan yn eu gweithgareddau.

Atebwyd y rhan fwyaf o'r holiaduron yn Saesneg, er bod y Gymraeg, ei diwylliant a'i thraddodiadau wedi'u gwreiddio'n ddwfn ym mro Llandysul.

Fel y rhan fwyaf o'r trefi marchnad eraill, mae Llandysul wedi'i chael yn anodd cadw ei hunaniaeth a'i chymeriad unigryw yn sgil newidiadau diweddar i fasnach a bywyd gwledig oherwydd bod polisïau'n canolbwyntio ar ardaloedd trefol. Yn sgil cau'r farchnad da byw a'r banciau, a symud Swyddfa'r Post oddi ar y Stryd Fawr, mae nifer yr ymwelwyr â'r dref wedi dirywio, gan roi ergyd fawr i hen fusnesau teuluol annibynnol lleol ac i safleoedd eraill.

Ers adeiladu'r ffordd osgoi, nid yw traffig yn teithio drwy'r dref, ac yn sgil cau un feddygfa a symud yr ysgolion allan o'r dref, mae llai o bobl yn bresennol yng nghalon y gymuned o ddydd i ddydd.

Mae'r mesurau cyni wedi bod yn ergyd i nifer o'r amwyderau dinesig, a'r rheini wedi'u hachub dim ond drwy ymdrechion ac ymroddiad llawer o wirfoddolwyr.

Yn gyffredinol, mae pobl yn ei chael yn anodd dygymod â newid. Pan ddioddefodd nifer o gartrefi a busnesau yn ardal Llandysul lifogydd yn ddiweddar, gwelwyd bod yma gymuned gydnerth glòs. Mae effaith y llifogydd a'r ffaith bod cynifer o fusnesau wedi cau wedi ychwanegu at deimlad o ddigalondid mewn tref farchnad sy'n mynd drwy gyfnod anodd.

Cyfeiriodd pobl at dopograffi'r dref (a hithau wedi'i chodi ar ochr bryn) a'r heriau sydd ynghlwm wrth hynny o ran darparu a defnyddio gwasanaethau. O ddarparu cludiant lleol rheolaidd i gysylltu'r ddwy ran o'r dref, gallai ddatrys y broblem hon.

Yn yr ymatebion i'r holiadur, tynnwyd sylw at yr angen i uwchraddio adeiladau. Mewn un sylw, dywedwyd bod Llandysul wedi colli ei chalon a'i henaid a'i bod wedi bod yn dirywio ers blynnyddoedd lawer. Oherwydd ei bod wedi'i lleoli ar ffin dau awdurdod lleol, ceir canfyddiad nad yw'n mynnu buddsoddiad fel un o chwe chanolfan gwasanaethau Ceredigion.

Roedd gan yr ymatebwyr lawer o syniadau, ac mae'n amlwg bod Llandysul yn agos iawn at eu calonnau: "Tir parc / afon hyfryd." "Tref fywiog mewn lleoliad bendigedig." "Tref gartrefol." "Tref gyfeillgar." "Lle da i fyw, cyfradd droseddu isel." Cyfeiriodd pobl at yr angen neu'r gallu i yrru. Mae Llandysul yn agos at yr arfordir ac mae o fewn cyrraedd at gyfleusterau eraill.

Roedd pobl yn awyddus i gael mwy o siopau, tacluso adeiladau'r Stryd Fawr, adfer ac adnewyddu adeiladau nad ydynt yn cael gofal, gwella mynediad i rai sy'n defnyddio cadair olwyn, bywiogi'r strydlyn, adeiladu ar y cyfleusterau hamdden a ddarperir eisoes, gwella'r ganolfan hamdden, a pheri i Landysul fod yn ganolfan ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored – creu Parc Cenedlaethol ar gyfer y Gorllewin hyd yn oed.

Ar y Stryd Fawr, mae pobl am weld siopau sy'n darparu nwyddau hanfodol bob dydd a mwy o leoedd bwyta arbenigol fel sydd ar gael yn Aberteifi, ac maent hefyd am greu Pizza Tipi ger yr afon. Maent am ddatblygu'r stryd fawr drwy gael siopau sy'n darparu ar gyfer anghenion heddiw. Maent am greu llwybr beicio diogel sy'n estyn bum milltir i bob cyfeiriad o'r ysgol, llyn cychod, cwrs pitsio a phytio, ac ardal sglefrfyrdio. Mae'r ymatebwyr am ddefnyddio adeiladau segur fel canolfannau digidol, creu llawer o ddigwyddiadau sy'n annog pobl i ryngweithio, creu ystod eang o leoedd o ddiddordeb i ymwelwyr o bob man e.e. ymwelwyr â'r Paddlers. Maent am addasu hen Gapel y Tabernacl yn ganolfan ddydd a chreu maes parcio ar y Stryd Fawr.

Y weledigaeth ar gyfer 2030 oedd "meddwl yn fyd-eang, gweithredu'n lleol" er mwyn creu "cymuned fywiog, liwgar sy'n seiliedig ar hunangynhaliadaeth, yr amgylchedd a thwristiaeth ddiwylliannol". "Pentref deniadol a llewyrchus sy'n fwrlwm heb ei debyg o ddiwylliant Cymreig." "Peri i Landysul fod yn dref farchnad fywiog, ddynamig a chroesawgar sy'n darparu'r holl wasanaethau ac amwynderau sydd eu hangen ar drigolion y dref a'r cymunedau cyfagos AC sy'n gyrchfan sy'n ateb gofynion pob ymwelydd drwy ddatlu ei chymeriad unigryw a'i threftadaeth ddiwylliannol."

Ni ellir gwireddu'r holl ddyheadau hyn dros nos, ac ni fydd hynny'n digwydd. Bydd yn cymryd cryn dipyn o amser i gynllunio, i grynhoi tir, i bennu ffrydiau ariannu, i gynnwys prosiectau ym mhroffil gwariant cyfalaf y Cyngor Sir, ac i wneud ceisiadau i gael arian ac ati.

Mae llawer o gamau i'w cymryd a bydd angen ymgynghori ymhellach cyn rhoi unrhyw gynllun ar waith. Bydd angen blaenoriaethu'r cynlluniau hyn yn unol ag unrhyw ffrydiau ariannu posibl a fydd yn dod i'r amlwg yn ystod y broses o wireddu'r weledigaeth gymunedol hon.

Bydd angen pennu unigolion, sefydliadau a grwpiau cydweithredol a'u cynorthwyo i roi'r cynlluniau posibl hyn ar waith.

Prif leoliadau'r dref:

Mae gan rai rhannau o Llandysul statws Ardal Cadwraeth. O roi cynllun ardal ar waith yn y rhannau hyn o'r dref, byddai'n helpu i gynnal ansawdd a rhinweddau pensaernïol yr adeiladau hyn. Ychydig o'r adeiladau sydd wedi'u rhestru, ac mae un ohonynt yn cael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol. Mewn unrhyw gais cynllunio, bydd angen mynd ati mewn ffordd gytbwys ac ystyrlon i daro cydbwysedd rhwng diwallu anghenion a gofynion heddiw a gwarchod gwerth hanesyddol y dref.

Mae gan Eglwys Sant Tysul gynlluniau cyffrous i adnewyddu'r prif dŵr ac i adeiladu llawr mesanîn i ddarparu'r gwasanaethau ategol y mae eu hangen ar eglwysi heddiw. Oherwydd y gwaith hwn, mae rhan o'r Eglwys wedi'i chau ar hyn o bryd.

Ceir nifer o leoliadau o bwys yn Llandysul, gan gynnwys caeau chwarae Tir Dref lle ceir llain fowlio, cwrt tenis, ardaloedd picnic, maes criced a meysydd pêl-droed. Mae'r fenter hon yn cynnwys darparu pafiliwn lle ceir ystafelloedd newid / cawodydd, cegin ac ardal amwynderau, ynghyd â llwybr cerdded cylchol ar lan afon Teifi.

Dafliad carreg o gaeau chwarae Tir Dref, ceir Parc Coffa Llandysul a maes chwarae i blant – adnoddau sy'n darparu cyfleoedd hamdden gwerthfawr. I gydnabod y rheini a laddwyd yn ystod y ddau ryfel byd, aeth y Cyngor Cymuned ati beth amser yn ôl i godi wal garreg sy'n cynnwys plac coffa gydag enwau'r rheini a laddwyd wedi'u hysgrifennu arno. Mae hyn yn atgoffa pawb, ac yn enwedig y bobl ifanc sy'n defnyddio'r cyfleuster, eu bod yn gallu mwynhau'r ddarpariaeth hon oherwydd dewrder y rheini a fu'n brwydro dros ein rhyddid a'n hyfory ni.

Mae afon Teifi ei hun yn lleoliad o bwys sy'n enwog am fod yn afon i bysgota am sewiniaid ac eogiaid. Mae llawer o bobl o'n cymuned wedi cynrychioli Cymru mewn cystadlaethau pysgota amrywiol. Mae Llandysul Paddlers hefyd yn defnyddio'r afon yn helaeth ac mae'r clwb uchelgeisiol hwn wedi meithrin nifer o bencampwyr ar lefel Cymru a Phrydain mewn caiacio a chanŵio dŵr gwyn.

Ar safle hen Ysgol Ramadeg Llandysul, ac Ysgol Dyffryn Teifi yn fwy diweddar, ceir tŵr cloc hanesyddol. Yn sgil adeiladu ysgol newydd gwerth £30m, Ysgol Bro Teifi, sy'n dysgu plant o dair i 19 oed, mae safle hen Ysgol Dyffryn Teifi ar werth. Ar hyn o bryd, nid yw'n wybyddus beth fydd dyfodol y safle hwn sy'n agos at galon y gymuned.

Cynllun i wella'r Stryd Fawr:

Pan aethpwyd ati i greu ffordd osgoi Llandysul, cafwyd cryn drafodaeth gyda Chyngor Sir Ceredigion am y ffordd y gallai'r dref a'r ffordd gul sy'n mynd drwyddi elwa o gynllun strydlun. Fe'i defnyddiwyd fel tystiolaeth i hyrwyddo'r ffordd osgoi yn yr ymchwiliad cyhoeddus. Nid yw'r safbwynt a fynegwyd gan y Cyngor Sir ar y pryd wedi dwyn ffrwyth hyd yma. I lunio cynllun o'r fath, byddai angen cymorth a mewnbwn proffesiynol i baratoi cynnig cyn ymgynghori ymhellach.

Yn ystod y broses ymgynghori hon, awgrymwyd y gallai creu sgwâr ar gyfer y dref hybu'r ymdeimlad o lesiant a darparu ardal lle gallai trigolion y dref ac ymwelwyr eistedd. Gallai hefyd greu ardal fechan lle byddai modd cynnal marchnadoedd gwledig a digwyddiadau cymunedol eraill. Un lleoliad posibl fyddai'r ardal wrth ymyl hen fanc Barclays a arferai fod yn rhan o safle Gwasg Gomer yn y dref. Byddai angen wal gynnal fawr i godi'r safle i fyny at lefel y Stryd Fawr. Roedd un o'r ymatebwyr yn tybio y dylid caffael y rhan fwyaf o'r hyn sy'n weddill o hen safle Gwasg Gomer a'i droi'n faes parcio yng nghanol y dref.

Byddai Llandysul yn elwa o gynllun grant ardal i adfer toeon, simneiau a ffryntiadau eiddo preifat ac eiddo busnes. O wneud hyn, gallai adrodd stori fendigedig am Landysul yn yr oes a fu, ac yn enwedig am hanes ei safleoedd busnes. Gallai hyn ddenu ymwelwyr a helpu i greu cyfleoedd arbenigol i fusnesau. Gallai'r troedffyrdd hefyd elwa o gynllun o'r fath, yn ogystal â chelfi stryd, a byddai modd eu cynnwys mewn cynllun i wella'r Stryd Fawr. Gallai Tyfu Canolbarth Cymru fod yn un ffynhonnell arian bosibl ar gyfer cynnig o'r fath, yn ogystal â'r Grant Gwella Trefi sydd ar gael ar hyn o bryd i drefi Llandysul, Llanbedr Pont Steffan a Thregaron yng Ngheredigion.

Teithio cynaliadwy a hygyrchedd:

Gan fod tref Llandysul wedi'i chodi ar ochr y dyffryn uwchlaw afon Teifi, mae sawl rhiw serth i'w dringo i gyrraedd siopau'r Stryd Fawr, ac mae hyn yn arbennig o anodd i bobl hŷn ac i bobl â phroblemau symud. Byddai pobl yn croesawu llwybr beicio diogel a mesurau i beri i'r dref fod yn fwy hygyrch i rai sy'n defnyddio cadair olwyn.

Mae'r ffaith bod maes parcio wedi'i leoli ar waelod rhiw serth yn dal i godi gwrychyn, ynghyd â'r ffaith bod masnachwyr a phreswylwyr yn parcio'u cerbydau yn y lleoedd parcio dynodedig tu allan i siopau, heb dalu sylw i'r amseroedd aros penodedig, gan leihau nifer y lleoedd parcio sydd ar gael i bobl eraill.

Gwnaed y sylwadau hyn: "Darparu meysydd parcio di-dâl i ddenu mwy o bobl / siopwyr i'r dref." "Rhoi trwyddedau parcio i breswylwyr a masnachwyr er mwyn iddynt ddefnyddio'r maes parcio am ddim." Cyfeiriodd eraill at ddarparu manau gwefru yn y maes parcio.

A hithau'n dref farchnad fach wledig sydd wedi'i chysylltu â dinasoedd a threfi mwy o faint gan ffyrdd, mae cludiant cyhoeddus yn fater o bwys. Nid yw 25% o deuluoedd Cymru yn berchen ar gar, felly mae gwasanaethau bws rheolaidd yn hanfodol er mwyn i bobl gyrraedd siopau a banciau, ymweld â ffrindiau a theuluoedd, a chael gofal meddygol. Cyfeiriwyd at yr angen i gael cludiant cyhoeddus rheolaidd, dibynadwy a hwylus am bris rhesymol. Roedd "Pa gludiant?" yn sylw cyffredin iawn. Mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u hynysu. Nid ydynt yn teimlo bod gwasanaeth Bwcabus yn ymarferol gan fod rhaid archebu sedd ymlaen llaw. Mae hefyd yn ddrud i deuluoedd â sawl plentyn. Awgrymwyd y dylid newid y system archebu er mwyn i

rywun allu archebu sedd ar y bore y mae angen iddo/iddi ddefnyddio'r gwasanaeth, a hynny gan fod cynlluniau pobl yn newid a bod y bysiau'n aml iawn yn hanner gwag. "Nid yw cludiant cyhoeddus yn gweithio ac, ar y cyfan, nid oes cludiant ar gael. Mae angen ei integreiddio. Mae angen i'r system fysiau gludo pobl i Llandysul yn ogystal â chludo pobl oddi yma." Ni all pobl gyrraedd Pencader na Saron yn rhwydd i ddal y gwasanaeth bob awr i Gaerfyrddin.

Gan fod yr ysgol wedi symud i gyrion y dref, mae hyn wedi peri anawsterau i lawer o deuluoedd. Rhoddwyd clod i Llandysul Paddlers am sicrhau bod gwasanaeth bws mini'n cael ei ddarparu o Sgwâr Bradford i'r ysgol bob bore am rodd bach. Awgrymwyd y byddai modd trefnu cludiant i bob teulu yn ôl y gofyn.

Pe câi'r rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin ei hailagor, byddai'n hollbwysig bod Llandysul yn rhan o'r llwybr hwnnw.

Ers cau'r banciau a symud Swyddfa'r Post, mae pobl yn gofyn am wasanaeth bancio symudol mwy cynhwysfawr. Roedd pobl yn meddwl y dylai fod mwy o beiriannau codi arian e.e. mewn mannau sy'n denu grwpiau mawr o bobl.

Gwella'r amgylchedd naturiol:

Byddai modd datblygu cynllun ar hyd llwybr glan yr afon sy'n arwain o Bont Llandysul i ardal y chwarel ar ben draw'r llwybr. Byddai'n lle bendigedig i drigolion y dref ac ymwelwyr fynd am dro. Byddai'r miloedd o badlwyr sy'n dod i Landysul drwy gydol y flwyddyn yn elwa'n fawr o gynllun o'r fath, yn enwedig yn ystod y gaeaf pan fydd y llwybr yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Byddai cynllun o'r fath yn cynnwys seddi, gwaith celf / cerfluniau, goleuadau priodol, ardal fwy o faint lle gall pobl gael picnic / barbiw, arwyneb tarmac / concrit, a phont droed ar ben draw'r llwybr i faes parcio Tafarn yr Half Moon, gan greu llwybr cylchol deniadol arall sy'n cysylltu'r ddau awdurdod lleol. Byddai hefyd yn gam mawr tuag at ddarparu cyfleoedd hamdden iachus yn yr awyr agored i annog pobl i fyw bywydau mwy iachus a llesol.

I wireddu cynllun o'r fath, byddai angen cymorth a mewnbwn proffesiynol i ddatblygu'r cynnig cyn ymgynghori ymhellach.

Y Parc Coffa a chaeau Tir Dref yw maes tref Llandysul i bob pwrpas. Byddai modd gwneud mwy i beri i'r tir parc hwn fod yn fwy deniadol, er enghraifft, gosod gwelyau blodau a phlanhigion yno. Rhaid cofio, fodd bynnag, mai gwirfoddolwyr sy'n rheoli'r cyfleuster cymunedol rhagorol hwn. Yn y lleoliad hwn, ceir potensial hefyd i ddarparu pont droed dros afon Teifi a fyddai'n arwain at lwybr troed caniatadol yn y sir gyfagos. Byddai hyn yn darparu llwybr cerdded cylchol a fyddai o fudd i'n cymuned ac i ymwelwyr fel ei gilydd.

Yn yr un modd, byddai'n bosibl creu man gwyrdd / tir parc ar ran o gaeau chwarae hen Ysgol Dyffryn Teifi i ateb gofynion preswylwyr y rhan honno o'r dref.

Creu lleoedd – Hybu iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru:

Llandysul yw un o'r wardiau etholiadol â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion. Mae'n dref farchnad draddodiadol â thapestri cyfoethog o gapeli ac eglwysi, grwpiau fel y Cylch Cinio Cymraeg, y Cymrodorion, a Merched y Wawr, heb anghofio Ysgol Bro Teifi sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyrion y dref.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed heriol iddi'i hun i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn chwarae ei ran drwy sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau dwyieithog ac yn achub ar bob cyfle i hybu ac i annog cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Ar gyfer rhai swyddi, mae'n ofynnol i ymgeiswyr allu siarad Cymraeg neu ymrwymo i ddysgu'r iaith hyd at safon briodol mewn cyfnod penodedig. Mae gan lawer o sefydliadau'r dref hefyd bolisïau dwyieithog o'r fath, gan gynnwys Cyngor Cymuned Llandysul.

Mae gan rai rhannau o Landysul statws Ardal Cadwraeth. O roi cynllun ardal ar waith yn y rhannau hyn o'r dref, byddai'n helpu i gynnal ansawdd a rhinweddau pensaernïol yr adeiladau hyn. Ychydig o'r adeiladau sydd wedi'u rhestru, ac mae un ohonynt yn cael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol. Mewn unrhyw gais cynllunio, mae angen mynd ati mewn ffordd gytbwys ac ystyrlon i daro cydbwysedd rhwng diwallu anghenion a gofynion heddiw a gwarchod gwerth hanesyddol y dref.

Mae gan Eglwys Sant Tysul gynlluniau cyffrous i adnewyddu'r prif dŵr ac i adeiladu llawr mesanîn i ddarparu'r gwasanaethau ategol y mae eu hangen ar eglwysi heddiw. Oherwydd y gwaith hwn, mae rhan o'r Eglwys wedi'i chau ar hyn o bryd.

Iechyd a llesiant:

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion ar y testun hwn yn fwy negyddol nag unrhyw un o benawdau eraill yr holiadur, a hynny fwy na thebyg oherwydd bod un o ddwy feddygfa'r dref wedi gorfod cau oherwydd problemau recriwtio.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod Meddygfa Llyn-y-frân dan bwysau difrifol ac yn dweud ei bod yn teimlo fel pe bai ar fin methu. Cafwyd cwynion am brinder lleoedd parcio hefyd, ond mae'r mater hwn yn cael ei ddatrys ar hyn o bryd.

Roedd llawer yn teimlo bod Llandysul yn cael ei gadael ar ôl a bod y gwasanaeth iechyd yn hollol annigonol. Roeddent yn tybio bod Llandysul yn haeddu canolfan iechyd newydd a fyddai'n darparu gwasanaethau deintydd ac optegydd a gwasanaethau cymorth clinigol eraill. Roeddent hefyd am gael darpariaeth addysg iechyd lle gallai pobl ddysgu sut i goginio prydau maethlon pan fydd yr esgid yn gwasgu, ynghyd ag ystafelloedd da ar gyfer ymarferion iechyd, a chymorth i bobl newid eu ffordd o fyw.

Roedd pobl yn teimlo y byddai modd lleoli'r ddarpariaeth hon ar safle hen Ysgol Dyffryn Teifi, neu ar y caeau chwarae. Roedd rhai o gleifion Meddygfa Llyn-y-frân yn

teimlo bod eu gwasanaethau wedi dirywio yn sgil cau Meddygfa Teifi, ac roedd eraill yn teimlo ei bod yn anodd cael mynediad at wasanaethau bellach, yn enwedig yr henoed a'r rheini heb gar.

Roedd rhai'n teimlo bod y gofal a ddarperir i'n dinasyddion hŷn yn wael.

Roedd llawer yn ddiolchgar i Fwrdd Iechyd Hywel Dda am fynd ati i ailystyried y cynlluniau i ddarparu Canolfan Iechyd yn Llandysul, mater sy'n destun ymarfer ymgynghori arall gan yr awdurdod iechyd. O dan ei agenda foderneiddio, dylai sicrhau y bydd gwasanaethau iechyd ar gael yn nes at y cartref.

Gofynnodd un ymatebwr a fyddai meddygfa yn Llandysul yn 2030. Roedd ymatebwr arall yn teimlo y byddai modd hybu llesiant unigolion drwy gynyddu gweithgarwch sy'n pontio'r cenedlaethau, a hwnnw wedi'i ategu gan wasanaeth bws mini lleol i gysylltu poblogaeth wasgaredig y dref a'r ardal wledig o'i hamgylch.

Darpariaeth gymunedol a thwrystiaeth:

Mae Llandysul a Phont-tyweli'n ffodus fod ganddynt ddarpariaeth gynhwysfawr i'r gymuned a llawer i'w gynnig i ymwelwyr.

I'r gogledd i'r dref, mae gennym gampws cymunedol ar safle'r ysgol newydd 3-19 gwerth £30m, Ysgol Bro Teifi. Yno, ceir darpariaeth chwaraeon o'r radd flaenaf sy'n cynnwys lleoliad ar gyfer Clwb Hoci Merched Llandysul, llwyfan mawr gyda systemau sain a goleuo da, ac awditiwrwm sy'n addas ar gyfer llwyfannu cynrychiadau mawr, gyda rhesi o seddi ar ogwydd y gellir eu symud yn ôl.

Yn nes at y dref ac ar safle hen Ysgol Dyffryn Teifi, mae menter gymunedol Calon Tysul wedi'i lleoli. Yno, ceir pwll nofio a chanolfan hamdden y dref, adnoddau cymunedol rhagorol sy'n cefnogi iechyd a llesiant unigolion ac yn gweithio ochr yn ochr â chynllun atgyfeirio'r meddygon teulu. Mae hefyd yn atyniad gwerthfawr mewn tywydd gwlyb ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Ar draws y ffordd, ar safle'r hen ysgol gynradd, mae Theatr Hyperbole wedi mynd ati'n ddiweddar i greu lleoliad ar gyfer unigolion sy'n hoff o'r theatr a cherddoriaeth.

Ar lawr y dyffryn, mae gennym dir parc a chaeau chwarae rhagorol ar Gaeau Tir Dref. Yno, mae grwpiau o bob oed yn manteisio ar y ddarpariaeth i chwarae pêl-droed, criced a bowls. Mae llwybr troed caniataol hefyd yn dilyn trywydd afon Teifi ac mae'n cael ei ddefnyddio'n helaeth. Mae trigolion lleol ac ymwelwyr hefyd yn gwneud defnydd helaeth o'r ardal chwarae i blant a reolir gan y Cyngor Cymuned.

Ymhellach i lawr yr afon, mae cyfleusterau trawiadol Llandysul Paddlers, gyda'u maes gweryslla a'u llyn artiffisial. Mae pobl leol ac ymwelwyr yn gwneud defnydd helaeth o'r ganolfan hon, ac mae'n cael ei chydabod fel canolfan hyfforddi ar gyfer y gwasanaethau brys, yr RSPCA, prifysgolion o bob rhan o Brydain, ynghyd â'r lluoedd arfog.

Gerllaw, mae canolfan gymunedol a chelfyddydol y Pwerdy. Mae gennym hefyd ddarpariaeth gymunedol helaeth sy'n amrywio o grwpiau Cybiau a Sgowtiaid o bob math i glybiau ieuencid a grwpiau diwylliannol eraill.

Addysg:

Addysg yw'r allwedd sy'n agor y drws ar fywyd gwell weddill ein hoes. Gwnaed llawer o sylwadau am gyfleoedd dysgu gydol oes yn y gymuned, cyrsiau rhan-amser, dosbarthiadau nos, gweithdai blasu, clybiau sy'n hybu llesiant, a chyfleoedd i gael prentisiaethau. Roedd pobl yn awyddus i gael darpariaeth addysg ychwanegol (e.e. dosbarthiadau nos) sy'n cael ei hyrwyddo'n well ac sy'n fwy amlwg yn y gymuned. Er enghraifft, byddai modd darparu cyrsiau cyfrifiaduron i oedolion, mwy o glybiau i rai yn eu harddegau, a chyfleusterau i bobl sy'n gweithio. O ran y cwricwlwm ysgol: "Sut i lenwi ffurflen dreth, sut i gofrestru fel rhywun hunangyflogedig, sut i wneud cais i gael benthyciad i ddechrau busnes, a sut i sefydlu busnes." "Caniatáu i blant astudio Celf a Cherddoriaeth ar lefel TGAU yn hytrach na'r naill bwnc neu'r llall."

Roedd pobl yn teimlo'n gryf nad oes digon o ddarpariaeth band eang cyflym yn yr ardal, a bod hyn yn peri iddi fod yn anoddach i bobl gael mynediad at wasanaethau a ddefnyddir gan bobl mewn ardaloedd mwy trefol.

Gallai'r Corff Llywodraethu ystyried cynyddu ei incwm, er enghraifft, drwy ddarparu safle ar gyfer carafannau teithiol dros fisoedd yr haf, yn ogystal â gweithgareddau eraill ym maes twristiaeth.

Roedd llawer o'r farn y byddai'r ysgol yn lleoliad rhagorol ar gyfer dosbarthiadau nos ac ati.

Cyfleoedd datblygu – Tai:

Y safleoedd datblygu presennol:

O ran **tai**, mae cyfyngiadau'n parhau ar draws y safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tai yn Llandysul. Yn fras, mae'r cyfyngiadau hyn yn ymwneud â'r costau seilwaith sylweddol sy'n gysylltiedig â datblygiadau canolig eu maint, a hynny o ran ffyrdd, carthffosiaeth, dŵr gwastraff ac ati. Dim ond pum annedd newydd a gwblhawyd dros y degawd diwethaf, ac mae hyn wedi effeithio ar economi a hyfywedd y dref.

Mae'r safleoedd a ddyrannwyd i'w datblygu wedi'u lleoli i'r gogledd o'r dref, a hynny wrth ymyl Ystad y Ffawydd, tu cefn i ystad Parc yr Ynn, a'r mwyaf wrth ymyl Meddygfa Llyn-y-frân. Ceir ychydig o leiniau mewnlenwi o fewn cwrtil y dref.

Yn fwy diweddar, mae datblygiad llinellol newydd wedi dechrau ar Ffordd Llyn-y-frân a gyferbyn â Meddygfa Llyn-y-frân. O blith y tri thŷ sy'n cael eu codi, mae dau wedi'u prynu, a bwriedir codi naw thŷ arall yn ystod y cam hwn. Mae Cyngor Sir Ceredigion

wrthi'n adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol ac mae'n galw ar dirfeddianwyr i gynnig tir i fod yn safleoedd ymgeisio. Nid yw hyn yn golygu y bydd y tir yn cael ei gynnwys yn y cynllun nesaf, ond bydd yn cael ystyriaeth ddyladwy.

Cyfleoedd datblygu – Economaidd:

O ran yr **economi**, mae'r tir a glustnodwyd i ateb gofynion cyflogaeth a busnes Llandysul wedi'i lleoli ar ddau safle sefydledig, sef Parc Menter Groesffordd at ddibenion busnes cyffredinol a Chanolfan Bwyd Cymru sydd wedi'i lleoli ar ffin y ward yn Horeb. Fel y mae'r enw'n ei awgrymu, mae'r Ganolfan hon yn hyrwyddo ac yn cynorthwyo busnesau yn y sector bwyd a diod, yn ogystal ag annog y gymuned amaethyddol i arallgyfeirio ac i ychwanegu gwerth at y deunyddiau crai a gynhyrchir ganddi.

Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i hyrwyddo'r safleoedd hyn, ac i godi ymwybyddiaeth ohonynt, er mwyn creu mwy o swyddi. Pan fydd yn adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, dylai'r Cyngor Sir sicrhau bod tiroedd wrth ymyl y safleoedd cyflogaeth hyn yn cael eu diogelu i sicrhau bod modd ehangu'r safleoedd yn y dyfodol.

Safleoedd datblygu posibl:

Yn sgil cau Ysgol Dyffryn Teifi ac Ysgol Gynradd Llandysul, mae'r ddau safle'n barod i'w datblygu. Fel rhan o'r broses o lunio'r Cynllun Lle, bu i lawer ddatgan bod cyfle i ddefnyddio'r safleoedd hyn at wahanol ddibenion, gan gynnwys coleg chweched dosbarth, cyfleusterau meddygol gwell ac ati. O edrych tua'r dyfodol, mae'n sicr bod cyfle i ddefnyddio'r safle at ddibenion cymysg, gan gynnwys tai, defnydd masnachol ysgafn, a datblygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd o bosibl.

Cafodd Ysgol Gynradd Llandysul ei gwerthu ac ar ôl i'r safle fod yn wag am rai blynyddoedd, gwerthwyd rhan o'r hen adeilad i fusnes ym myd y theatr. Mae grŵp Cristnogol wedi meddiannu'r rhan arall o'r safle, sef yr hen Ganolfan Plant Integredig, gydag opsiynau i'w phrynu.

Deallir bod y perchennog gwreiddiol hefyd yn awyddus i wneud cais cynllunio i godi rhywfaint o dai ar yr un safle.

Roedd awydd hefyd i atgyfodi prosiect i godi pont dros afon Teifi yng Nghaeau Tir Dref. Byddai'r bont yn cysylltu'r ddau awdurdod lleol a dwy droetffordd – llwybr troed caniatol yn Nhîr Dref a llwybr troed ar ochr Sir Gaerfyrddin o'r afon. Byddai hyn yn creu llwybr cerdded cylchol i gyfoethogi'r ddarpariaeth i ymwelwyr ac i hybu iechyd a llesiant trigolion lleol.

Caeau chwarae hen Ysgol Dyffryn Teifi yw'r safle arall y byddai modd ei ddefnyddio ar gyfer datblygiad mawr. Roedd cryn dipyn o bobl o'r farn na ddylid defnyddio'r safle cyfan ar gyfer tai. Yn hytrach, dylid cael datblygiad cymysg yno, gyda rhywfaint o dai

a rhywfaint o unedau diwydiannol ysgafn, fel swyddfeydd neu safleoedd gweinyddol. Cyfeiriodd llawer at ddarparu addysg a gofal iechyd ar gyfer yr 21ain ganrif ar y safle, gan gynnwys yr hyn a ystyrir yn orddatblygiad Meddygfa Llyn-y-frân. Cynigiwyd y syniad o ddarparu rhandiroedd yn yr ardal hefyd, gan ddefnyddio rhan o'r caeau chwarae at y diben hwn.

Mae potensial i ddatblygu cynllun gwresogi ardal ar y safle hwn. Gallai leihau costau ynni/gwresogi tai preifat a thai cymdeithasol gerllaw'r safle, yn ogystal â hen gartref preswyl Cyngor Sir Ceredigion, Awel Deg, sy'n cael ei ddefnyddio fel swyddfeydd yn bennaf ar hyn o bryd.

Roedd nifer aruthrol o bobl yn tybio y dylid cadw rhan sylweddol o'r tir fel man gwyrdd neu dir amwynder, a hynny gan fod cyfran uchel o boblogaeth y dref yn byw yn yr ardal hon a'i bod yn debygol y bydd mwy o dir yn yr ardal hon yn cael ei glustnodi i'w ddatblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol i ateb gofynion tai Llandysul yn y dyfodol.

O ran datblygu'r economi, mae angen rhoi mesurau ar waith i ddiogelu tir wrth ymyl Parc Menter Groesffordd a Chanolfan Bwyd Cymru yn Horeb i sicrhau bod modd datblygu'r safleoedd hyn yn y dyfodol.

Hyrwyddo a rheoli ar gyfer twf cynaliadwy:

Ni ellir gwireddu'r holl ddyheadau hyn dros nos, ac ni fydd hynny'n digwydd. Bydd yn cymryd cryn dipyn o amser i gynllunio, i grynhoi tir, i bennu ffrydiau ariannu, i gynnwys prosiectau ym mhroffil gwariant cyfalaf y Cyngor Sir, ac i wneud ceisiadau ac ati.

Mae llawer o gamau i'w cymryd a bydd angen ymgynghori ymhellach cyn rhoi unrhyw gynllun ar waith. Bydd angen blaenoriaethu'r cynlluniau hyn yn unol ag unrhyw ffrydiau ariannu posibl a fydd yn dod i'r amlwg yn ystod y broses o wireddu'r weledigaeth gymunedol hon.

Bydd angen pennu unigolion, sefydliadau a grwpiau cydweithredol a'u cynorthwyo i roi'r cynlluniau posibl hyn ar waith. Bydd angen llunio cynllun gweithredu a fydd yn cynnwys cerrig milltir er mwyn i'r gymuned gael gwybod am hynt y gwaith i gyflawni'r amcanion. Bydd hefyd angen sefydlu grŵp rheoli i arwain ac i hybu dyheadau'r Cynllun Lle hwn.

Amcanion newid hinsawdd:

Bydd angen i'r mater hwn fod wrth wraidd unrhyw ddatblygiadau yn ein cymuned yn y dyfodol. Mae sefydliadau eisoes yn ymateb i'r her drwy fynd ati i leihau ein dibyniaeth ar hen fathau o ynni.

Mae menter Calon Tysul yn ymchwilio i'r posibilrwydd o osod system bwyler newydd i ddiwallu anghenion ynni'r pwll nofio a'r ganolfan hamdden, gan osod paneli solar ar do'r ganolfan hamdden.

Mae'r busnes preifat, Gwasg Gomer, yn cychwyn ar brosiect mawr i osod paneli solar ar do ei adeilad i leihau ei gostau ynni uchel a'i ôl troed carbon drwy ddefnyddio llai o ynni.

Mae Llandysul Pont-tyweli Ymlaen, a'i is-fenter cludiant, Dolen Teifi, newydd gael cerbyd trydan gyda chymorth caredig Prosiect Fferm Wynt Brechfa. Mae hefyd wedi gwneud cais i gael tri cherbyd trydan i gynorthwyo'r rheini sydd wedi'u hynysu yn yr ardal wledig o amgylch y dref i gael mynediad at wasanaethau. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys darparu manau gwefru ar y cyd â Chwmni Ynni Sir Gâr.

Ysgol Bro Teifi – Cafodd yr ysgol hon ei chodi yn unol â'r safonau BREEAM uchaf.

Canolfan Bwyd Cymru, Horeb – Gosodwyd paneli solar ar do'r Ganolfan i leihau ei chostau ynni.

Mae angen inni ennyn cefnogaeth ein Haelod o'r Senedd a mynd ati i lobïo Llywodraeth Cymru i ddewis Llandysul i fod yn ganolfan teithio llesol. Mae hefyd angen annog gwasanaethau bws gwell a mwy rheolaidd. Mae angen creu mwy o lwybrau beicio i annog ffyrdd iachach o fyw ac i gysylltu'r ysgol a'r canolfannau cyflogaeth â chanol y dref.

Mae angen inni wella'r ffordd yr ydym yn hyrwyddo ac yn datblygu amcanion cynllun rhannu ceir.

Rheoli llifogydd:

Yn 2018, bu i Landysul a Phont-tyweli ddioddef difrod sylweddol yn sgil Storm Callum, ac mae rhai busnesau a chartrefi yn dal i fod heb eu hadfer yn llwyr yn sgil y digwyddiad.

Mae angen inni annog Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ddau awdurdod lleol i roi gwybod i drigolion y ddwy gymuned am y camau y maent yn eu cymryd i liniaru effaith digwyddiad o'r fath yn y dyfodol, ac i ddarparu cymorth grant i gynorthwyo'r preswylwyr â'u mesurau cyfyngedig eu hunain i amddiffyn eu heiddo rhag llifogydd.

Mae Cyngor Cymuned Llandysul yn llunio cynllun llifogydd lleol i gynorthwyo preswylwyr a busnesau rhag ofn i lifogydd o'r fath ddigwydd eto yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae cynllun ar waith i sicrhau nad oes raid i unrhyw eiddo domestig fod heb yswiriant llifogydd, ond nid yw'r un fath yn wir yn achos mentrau cymunedol na busnesau. Mae angen inni lobïo Llywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau bod cynllun o'r fath ar gael i'r grwpiau hyn hefyd.